| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | 7 Mawrth 2024 |
| **AELOD CABINET:** | Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **TEITL:** | Cytundeb Cyflawni - Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd |
| **AMCAN:** | Derbyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i'r Cytundeb Cyflawni a chytundeb i'w gyflwyno i'r Llywodraeth Cymru ar gyfer eu sêl bendith. |
| **AWDUR:** | Gareth Jones - Pennaeth Adran Cynorthwyol |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

*Bod y Cyngor Llawn yn:*

i) Cymeradwyo fersiwn terfynol o Gytundeb Cyflawni – Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (sydd wedi ymgorffori'r diwygiadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus)

ii) Cytuno i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cymeradwyaeth

iii) Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Adran wneud addasiadau golygyddol er sicrhau cywirdeb yn ôl yr angen.

## 2. Y rheswm pam fod angen y penderfyniad:

2.1 Paratoi a derbyn cymeradwyaeth o'r Cytundeb Cyflawni yw'r cam cyntaf statudol yn gysylltiedig â'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

2.2 Yn unol â'r trefniant llywodraethu yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a materion Polisi Cynllunio eraill, mae'r Cytundeb Cyflawni eisoes wedi cael ei gyflwyno i'r Gweithgor Polisi Cynllunio ar gyfer eu hystyriaeth ynghyd a chyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd. Mae'n ofynnol derbyn sêl bendith y Cyngor Llawn i'r ddogfen cyn gellir ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cymeradwyaeth.

2.3 Bwriad yr Adroddiad yma yw cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni a'r Adroddiad Ymgynghori cysylltiedig. Ymhellach fe gyflwynir sylwadau'r Gweithgor a'r Cabinet ar gyfer sylw ac ystyriaeth y Cyngor Llawn.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir

3.1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004[1] yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu

[1] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

hardaloedd. Mae'n rhaid paratoi Cytundeb Cyflawni (CC) cyn y gellir symud ymlaen i'r broses ffurfiol o baratoi'r CDLI. Yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus bydd yr Arolygydd Annibynnol yn sicrhau fod y CDLI wedi ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni (ffurfio rhan o'r profion cadernid). Nodir gan hynny fod cynnwys y CC a'r dull y bydd y Cyngor yn ei weithredu yn ffurfio rhan greiddiol yn y broses o baratoi CDLI cadarn. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn a Llywodraeth Cymru ar y Cytundeb Cyflawni. Yn dilyn derbyn y cymeradwyaeth hwn, bydd y broses ffurfiol o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cychwyn.

## 3.2 Cynnwys

3.2.1 Rhennir y CC i ddwy ran, fel sydd wedi nodi isod :

1. Amserlen o'r Camau Allweddol ar gyfer paratoi'r CDLI newydd; a
2. Cynllun Cynnwys Cymunedau sydd yn nodi sut a pryd gall y rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun.

3.2.2 Pwrpas y CC ydi gosod allan amserlen ar gyfer paratoi'r CDLI a hefyd gosod allan y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn darparu manylion am y gwahanol gamau yn y broses a sut a phryd mae'r rhanddeiliaid yn gallu cymryd rhan.

3.2.3 Mae'r amserlen sydd wedi ei osod allan yn y CC yn un heriol ond yn gyraeddadwy. Wrth ddrafftio'r amserlen mae ystyriaeth wedi ei roddi i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru (fel y gosodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020)[2]), hynny yw y gofyn i baratoi Cynllun Datblygu Lleol o fewn 3.5 mlynedd. Yn unol â'r amserlen sydd wedi ei osod allan yn y Cytundeb Cyflawni rhagwelir y bydd y CDLI newydd yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol ym mis Medi/Hydref 2027. Bydd glynu at yr amserlen y camau unigol a nodir yn bwysig er mwyn sicrhau fod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadau o fewn y cyfnod o dair blynedd a hanner.

3.2.4 Mae'r amserlen wedi ei rannu i gamau diffiniol a chamau dangosol. Nodir fod yna fwy o reolaeth ynghlwm a phryd fydd y camau diffiniol yn cael ei gynnal a chan hynny mae posib paratoi amserlen a threfn adrodd gysylltiedig ar eu cyfer. Ar y llaw arall, gyda'r camau dangosol mae'r camau hyn yn ddibynnol ar ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor, megis y nifer o sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a rhaglen waith Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i gynnal yr Archwiliad.

3.2.5 Mae rheoliadau CDLI[3] yn gosod allan y ddyletswydd i ymgynghori yn ystod camau penodol o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Pwysleisir fod cynnal cyfnodau ymgynghori yn fodd o *"...geisio sicrhau mwy o gonsensws a chryfhau cyfraniad y gymuned ar y broses o lunio cynllun..."* (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Mawrth 2020). Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a gynhwysir yn y Cytundeb Cyflawni yn amlinellu sut y gall unigolion, asiantau, sefydliadau ac eraill fod yn rhan o'r broses o lunio'r

[2] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Mawrth, 2020)
[3] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

cynllun. Mae'n nodi'r dulliau ymgysylltu a ddefnyddir ac yn nodi pryd fydd y cyfleoedd i bobol gyfrannu i'r broses o baratoi Cynllun.

## 3.3 Cyfnod ymgynghori cyhoeddus

3.3.1 Yn dilyn penderfyniad gan y Cabinet (10 Hydref 2023) i gyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus, mae'r cyfnod ymgynghori wedi ei gynnal. Cyflwynir yr adroddiad hwn ganlyniadau'r cyfnod ymgynghori hynny (Atodiad 1).

3.3.2 Mae gofyn statudol i ymgynghori a chyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol ar gynnwys y Cytundeb Cyflawni. Fodd bynnag, ystyriwyd fod angen mynd tu hwnt i'r gofyn statudol hyn drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.

3.3.3 Codwyd ymwybyddiaeth o'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus drwy: -

- Hysbysu rhanddeiliaid statudol ac anstatudol;
- Hysbysu aelodau lleol;
- Hysbysu Cynghorau Cymuned/Tref/Dinas;
- Hysbysu Awdurdodau Lleol cyfagos;
- Hysbysu unigolion/sefydliadau sydd wedi datgan diddordeb yn y Cynllun Datblygu Lleol (basdata cysylltiadau, 1,316 mewn nifer);
- Rhaeadru negeseuon rheolaidd ar wefannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor (Facebook, Instagram a X (Twitter yn flaenorol)).

3.3.4 Ymhellach fe sicrhawyd fod y deunydd perthnasol a oedd ei angen er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau, hynny yw'r Cytundeb Cyflawni Drafft ynghyd a'r Asesiad Effaith Integredig (gweler Atodiad 3) ar gael i'w archwilio yn y mannau canlynol:-

- Copi caled yn Siop Gwynedd Caernarfon, Dolgellau a Pwllheli;
- Copi Caled yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol;
- Gwefan y Cyngor

3.3.5 Er hwyluso'r broses o ddarparu sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni Drafft fe ddarparwyd ffurflen sylwadau (copi caled a rhyngweithiol). Roedd y ffurflen yn holi barn gyffredinol ar y gwahanol adrannau o'r Cytundeb Cyflawni Drafft, gyda chyfanswm o 9 cwestiwn penodol yn cael ei ofyn.

3.3.6 Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus rhwng 26 Hydref 2023 a 7 Rhagfyr 2023. Fe ymatebwyd 14 o unigolion/sefydliadau i'r ymgynghoriad gyda chyfanswm o 37 sylw.

## 3.4 Ymatebion - Cyfnod Ymgynghori Cyhoeddus

3.4.5 Gellir archwilio'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn Atodiad 1. Ynghyd a'r sylwadau mae posib archwilio ymateb drafft y Cyngor i'r sylwadau ynghyd a'r argymhelliad sydd yn deillio o'r sylw.

3.4.6 Nodir nad oedd yna unrhyw faterion sylweddol yn codi o'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae rhai o'r sylwadau ac awgrymiadau o ran sut i ddiwygio'r ddogfen wedi ei derbyn

ac yn sgil hynny mae yna ddiwygiad yn cael ei gynnig i'r ddogfen. Ystyrir fod y diwygiadau hyn yn ychwanegu gwerth ac eglurder i'r Cytundeb Cyflawni.

3.4.3 Mae posib archwilio unrhyw diwygiad(au) a gynigir i'r Cytundeb Cyflawni drafft yn sgil y sylwadau yn Atodiad 2. Mae unrhyw ychwanegiadau yn cael ei harddangos mewn **ysgrifen drom ac wedi ei thanlinellu** gydag unrhyw destun sydd yn cael ei ddileu yn cael ei ddangos gyda ~~llinell drwodd~~.

### 3.5 Ddeddf Cydraddoldeb 2010

3.5.1 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Gymreig). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y ddyletswydd gymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Ynghyd a'r Cytundeb Cyflawni Drafft, paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae gofyn i'r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, mae'r asesiad hyn wedi cael ei ddiwygio. Gellir ei archwilio yn Atodiad 3.

### 3.6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.6.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio.

### 3.7 Sylwadau'r Gweithgor Polisi Cynllunio

3.7.1 Cyflwynwyd y Cytundeb Cyflawni ynghyd a'r Adroddiad Ymgynghori cysylltiedig i gyfarfod o'r Gweithgor Polisi Cynllunio a gynhaliwyd ar 26 Ionawr, 2024. Fel rhan o'r drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

i. Cwestiynwyd pam fo rhai mentrau cymunedol wedi cael ei rhestru yn Atodiad 6, ac eraill wedi ei heithrio.
ii. Yn sgil sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus, holwyd pe byddai'n bosib diwygio'r profion cadernid sydd ynghlwm a'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol er sicrhau fod ystyried effaith ar yr iaith Gymraeg yn rhan o'r profion.

3.7.2 Ymatebwyd i'r sylwadau hyn fel a chanlyn:-

i. Mae Cymunedoli wedi ei adnabod fel rhanddeiliaid anstatudol a restrir yn Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni. Rhwydwaith o fentrau a busnes cymunedol yw Cymunedoli a chan hynny fe ddefnyddir hwy fel pwynt cyswllt canolog rhwng y Cyngor a'r mentrau cymunedol wrth fynd ati i baratoi'r Cynllun. Fodd bynnag cytunir

y byddai'n ddefnyddiol cynnwys manylion y mentrau cymunedol i gyd fel rhanddeiliaid anstatudol ac ar ein basdata cysylltiadau. Gan hynny, mae Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni wedi cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

ii. Mae Adran 64(2) o Ddeddf 2004[4] yn nodi na ddylai ACLl gyflwyno CDLl oni bai eu bod o'r farn bod y Cynllun yn barod i'w archwilio. Mae hyn yn golygu na ddylid cyflwyno cynlluniau 'nad ydynt yn gadarn' i gael eu harchwilio. Bydd angen i'r ACLl ddangos bod y cynllun yn bodloni'r tri phrawf cadernid a nodir yn Nhabl 27 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd y cwestiynau a restrir o dan bob prawf yn rhai bydd yr Arolygydd yn eu hystyried wrth benderfynu a yw'r Cynllun yn gadarn.

Nodir fod y sylw a dderbyniwyd yn ymwneud a chynnwys cyfeiriad tuag at sicrhau fod ystyriaeth wedi cael ei roddi i effaith y Cynllun ar y Gymraeg. Pwrpas y profion yw asesu os yw'r CDLl yn gwneud yr hyn mae wedi gosod allan i'w wneud. Nid pwrpas y profion yw asesu effaith y cynllun yn fanwl, na chwaith i edrych ar agweddau a effeithir yn benodol. Os oes cwestiwn yn benodol ar un agwedd gall hyn arwain at golli asesiad cywir o'r effaith yn ei gyfanrwydd. Mae sawl agwedd bwysig gall fod yn destun cwestiwn penodol i'w fesur a gall ychwanegu un ar y Gymraeg arwain at ymofyn i ychwanegu agweddau eraill. Credir nad wrth ychwanegu cwestiwn penodol ar effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg yw'r ffordd gorau o asesu'r effaith oherwydd bydd yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei asesu trwy gydol bob prawf. Os byddwn yn pennu cwestiwn penodol ar effaith ar y Gymraeg, gall hyn arwain at dynnu asesiad o'r Gymraeg o bob cwestiwn arall ac felly yn colli darlun mwy llawn o'r effaith. Dylai'r effaith ar y Gymraeg fod yn treiddio trwy bob cwestiwn. Mae hefyd cwestiynau o fewn pob prawf yn galluogi'r Gymraeg gael asesiad lawn. Bydd hyn yn golygu fod y Cynllun yn cael ei asesu ar ei gadernid ac nid y man gynnwys yn y rhan yma.

Ymhellach i'r uchod mae asesu effaith ar yr iaith Gymraeg yn ofyn statudol ar y Cyngor trwy'r Ddeddf Cydraddoldeb, a dylid cymryd cynnwys yr asesiad yma i ystyriaeth mewn unrhyw adroddiad. Mae hefyd yn ddyletswydd ar y Cyngor, wrth ymgymryd â'r Arfarniad Cynaliadwyedd i ystyried effeithiau tebygol y Cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal y cynllun. (adran 62(6A) PCPA 2004 fel y'i mewnosodwyd gan adran 11, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015). Diben hyn yw sicrhau bod graddfa a lleoliad y newid a nodir yn y cynllun yn cefnogi'r Gymraeg a sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn eu lle, os oes angen. Mae'r bwysig hefyd nodi dylai'r CDLl fod yn unol â'r Ddeddf Llesiant 2015 a bod y nodau o fewn y Ddeddf yma yn cynnwys asesu'r effaith ar yr iaith Gymraeg (Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu).

Gan hynny ni ystyrir angen i ddiwygio'r profion cadernid yn unol â'r sylw, gan, yn ei hanfod fod yr hyn a geisir eisoes yn cael ei gyfarch yn y profion cadernid ar ei ffurf bresennol a thrwy ofynion statudol sydd ar y Cyngor.

### 3.8 Sylwadau'r Cabinet

3.8.1 Cyflwynwyd y Cytundeb Cyflawni ynghyd a'r Adroddiad Ymgynghori cysylltiedig i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd ar 20 Chwefror, 2024. Mynegwyd pryder mai 14 o unigolion/sefydliadau yn unig oedd wedi ymateb i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus,

[4] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)

fodd bynnag derbyniwyd fod y diffyg ymatebion yn adlewyrchu natur y ddogfen. Cytunwyd i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i'r Cyngor Llawn.

## 4.0 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

4.1 Yn unol â'r ddyletswydd a osodir yn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) mae'n ofynnol fod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer eu hardaloedd. Paratoi a derbyn cymeradwyaeth o'r Cytundeb Cyflawni yw'r cam cyntaf statudol sydd ynghlwm a'r broses o baratoi'r Cynllun.

4.2 Yn unol â'r gofynion a osodir yn y Rheoliadau mae'r ymarferiad ymgynghori cyhoeddus wedi ei gynnal ac ystyriaeth briodol wedi ei roi i'r sylwadau a dderbyniwyd. Gofynnir gan hynny fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Adroddiad Ymgynghori a'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig er ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

## 5.0 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cyngor Llawn fe fydd y Cytundeb Cyflawni yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cymeradwyaeth. Fe fydd gan Lywodraeth Cymru gyfnod o hyd at 4 wythnos i'w gymeradwyo.

## 6.0 Sylwadau Swyddogion Statudol

### 6.1 Prif Swyddog Cyllid

*Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.*

### 6.2 Swyddog Monitro

*Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor a mewnbwn  gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Rwy'n fodlon felly gyda'i briodoldeb.*

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghori

Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni - fersiwn terfynol yn cynnwys y diwygiadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus

Atodiad 3 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb